

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Health and Social Services Group**



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AG/AWL/SB

22 Rhagfyr 2017

Annwyl Mr Ramsay

### **Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014**

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd 2017, gweler isod ymateb i'ch cais am eglurhad pellach am y materion a amlygwyd yn y *Zero Based Review* a gynhaliwyd o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Dyma'r prif gasgliadau y daethpwyd iddynt o dan y pedwar maes allweddol a aseswyd fel rhan o'r adolygiad hwnnw:

- Demograffeg

Mae poblogaeth ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gymharol hen, sef yn hŷn na'r cyfartaledd ar draws Cymru, a gallai hynny effeithio ar lefelau cyfleustodau a chostau darparu gofal iechyd. Gallai hyn yn ei dro ychwanegu at gostau yn y sector aciwt. Hefyd, er bod gan amddifadedd y potensial i effeithio ar gostau, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn sefyllfa ganolig o ran lefelau amddifadedd yng Nghymru, ac o'r herwydd ni nodwyd bod unrhyw gostau ychwanegol mewn perthynas â hyn yn dod i ran y Bwrdd.

- Pellteroedd

Nid oedd y dadansoddiad o gostau yn dangos bod cysylltiad rhwng pellteroedd daearyddol a chostau staffio ychwanegol o fewn y Bwrdd Iechyd.

- Patrymau gwasanaethau (graddfa)

Gan mai pedwar prif ysbyty aciwt bach sydd gan y Bwrdd, roedd yna dystiolaeth y gallai annarbodion maint ychwanegu at gostau yn y sector aciwt.

- Effeithlonrwydd

O gymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyfle o ran ei weithgarwch a chostau uned i wella effeithlonrwydd a lleihau costau.

Mae casgliadau'r adroddiad wedi cael eu rhannu gyda Bwrdd Hywel Dda, drwy gyfrwng cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb a roddwyd gan Deloitte i aelodau'r Bwrdd ar 14 Rhagfyr 2017.

Rydym wrthi'n ystyried ein hymateb i gasgliadau'r adolygiad, a byddwn yn rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol maes o law. Bydd swyddogion wedyn yn bwrw ymlaen â chymau gweithredu a chytundebau drwy'r cyfarfodydd ymyrraeth wedi ei thargedu a gynhelir gyda'r Bwrdd bob mis, sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflwyno ei gynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y cynhaliwyd yr adolygiad hwn, ac ni chafodd ei gynnal o fewn unrhyw Fwrdd Iechyd arall. Felly, nid yw'r posibilrwydd bod costau ychwanegol yn deillio o batrymau gofal iechyd mewn Byrddau Iechyd eraill wedi ei asesu. Fodd bynnag, mae'r adolygiad wedi darparu tystiolaeth a all gyfrannu at waith arall, yn benodol y dadansoddiad demograffig o broffiliau yn ôl oedran a rhyw mewn lleoliadau gwahanol, yn ogystal â newidiadau yn y boblogaeth dros gyfnod o amser, a bydd hyn yn helpu gyda'r adolygiad o'r fformiwla dyrannu adnoddau.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**